



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**

Y Gwir Anrh. Priti Patel AS

Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

12 Medi 2019

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

PARTH: Y perthynas tlawd– Ymateb yr heddlu a GEG i droseddau yn erbyn pobl hŷn

Ysgrifennaf ynglŷn â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gan y Prif Gwnstabl, Mark Collins, a minnau.

Rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys, fel heddlu, yn cydnabod anghenion cymhleth dioddefwyr trosedd hŷn. Medraf eich sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn deall y galw cyfredol sy'n wynebu'r heddlu'n dda, yn dilyn argymhellion o fewn yr adroddiad.

Er mwyn gwella ymateb yr heddlu i bob oedolyn sy'n agored i niwed o fewn ein cymunedau, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi'n helaeth mewn gweithredu Desg Fregusrwydd yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2019.

Mae'r Ddesg Fregusrwydd yn cynnwys saith swyddog heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig ar batrwm sifft 24 awr, sy'n ymdrin yn benodol â phob galwad am wasanaeth Cam-drin Domestig a dderbynnir gan yr heddlu. Mae'r ddesg yn canolbwyntio'n arbennig ar alwadau sy'n ymwneud ag oedolion sy'n agored i niwed a phobl hŷn, gan ddefnyddio diffiniad GEG o bobl hŷn, sef pobl 60 oed neu hŷn. Mae swyddogion y Ddesg yn rhoi gwybodaeth a chudd-wybodaeth allweddol i swyddogion ymateb sydd ar eu ffordd i leoliad digwyddiad mewn amser real, ac yn nodi peryglon sy'n ymwneud â phlant, oedolion sy'n agored i niwed, ac unrhyw fygythiadau sylweddol, megis arfau saethu.

Mae'r Ddesg yn sicrhau bod asesiad risg llawn yn cael ei gwblhau ar gyfer pob digwyddiad, a bod cyfeiriadau dioddefwyr priodol yn cael eu gwneud mor gyflym â phosibl er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad i dioddefwyr hŷn a dioddefwyr ifainc. Mae'r heddlu'n datblygu cynlluniau ar gyfer ehangu cylch gwaith y Ddesg Fregusrwydd tu hwnt i gam-drin domestig er mwyn cynnwys amrediad ehangach o droseddau sy'n ymwneud â dioddefwyr sy'n agored i niwed. Mae fy swyddfa'n arsylwi ar y datblygiadau hyn â diddordeb.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**

Mae tîm galw'r heddlu'n gweithio ar y cyd â'r Adran Ymchwilio i Droseddau a'r Uned Amddiffyn Pobl Fregus er mwyn sicrhau y bodlonir dadansoddi galw meintiol ag ymateb ymchwiliol a gweithredol ansoddol er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n parhau i wella'r gwasanaeth ar gyfer pob oedolyn sy'n agored i niwed yng nghymunedau Dyfed a Phowys.

Rydw i dal yn ariannu Gwasanaeth Dioddefwyr a Thystion y Prif Gwnstabl, Goleudy, er mwyn darparu arweiniad a chymorth ymarferol ar gyfer amrediad helaeth o ddiodesfwyr o fewn ein cymunedau.

O ystyried y bygythiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cynyddu mewn perthynas â thwyllwyr yn targedu pobl hŷn mewn cymunedau, mae Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd â gwasanaeth Goleudy, wedi cyflwyno Ymgyrch Signature er mwyn adnabod a chefnogi diodesfwyr twyll sy'n agored i niwed.

Ar hyn o bryd, mae Heddlu Dyfed-Powys yn elwa o broses Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaeth, sydd wedi ymwreiddio'n dda. Defnyddir y broses hon er mwyn sicrhau bod pecyn o wasanaethau cymorth priodol yn cael ei roi i ddiodesfwyr ag anghenion lluosog.

Mae adolygiad llawn o'r broses gyfeirio hon wedi'i gomisiynu gan yr adran Diogelu Pobl Fregus, a fydd yn cynnwys craffu o gwmpas nifer y cyfeiriadau a'u hansawdd, a chynlluniau cymorth dilynol mewn perthynas â phobl hŷn o fewn ein cymunedau. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn hysbysu cynlluniau hyfforddi yn y dyfodol a gofynion strategaeth a nodir o fewn yr adroddiad.

Yn sicr, gellir gwneud mwy i gefnogi pobl hŷn yn Nyfed-Powys, a gyda'n gilydd, rydyn ni'n parhau i asesu a gwerthuso ein dull presennol o gyflenwi gwasanaethau. Rwy'n hyderus y bydd ffocws parhaus Heddlu Dyfed-Powys yn y maes hwn yn gyrru'r gwelliannau gofynnol. Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio gyda'r heddlu er mwyn sicrhau ein bod ni'n rhoi'r argymhellion hyn ar waith ac yn parhau i ddatblygu'r maes hwn er mwyn sicrhau y bodlonir anghenion pobl hŷn.

Mae copi o'r ymateb hwn ar gael ar fy [ngwefan](#).

Yr eiddoch yn gywir

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**

Dafydd Llywelyn

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Copi at: AEM Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

web www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)
gwefan www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440

Ffacs: Fax: 01267 226448

E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



**COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

web www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)
gwefan www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** DPOPCC **facebook** [dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner](https://www.facebook.com/dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner)